y dinesydd

Medi 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 274



# Maxwell Evans

Bu marwolaeth sydyn y Parchedig Maxwell Evans yn sioc mawr iawn i'w deulu ac i bob un o'i ffrindiau drwy'r wlad. Go anaml y byddai neb yn cyfeirio ato fel Y Parchedig er ei fod yn fawr ei barch ym mhob man. Max oedd e i bawb ac mae hynny'n dweud llawer am ei bersonoliaeth ddiymhongar, gyfeillgar.

'Roedd Max yn 79 oed pan fu farw ond feddyliodd e erioed y byddai'n well iddo ddechrau hamddena a gorffwyso. Os byddai Max yn gweld angen yn rhywle byddai gyda'r cyntaf yn cynnig cymorth.

Fe'i ganed yng Nghaerdydd ac ar ôl cyfnod yn y llynges adeg y rhyfel, ac yna graddio yn y Brifysgol, bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Ferwig. Dychwelodd i Gaerdydd wedyn a'i benodi yn athro Cymraeg yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Yn ystod y cyfnod hwn y dechreuodd ei ymlyniad i Rieni dros Addysg Gymraeg.

Ar ôl ei gyfnod fel athro, cafodd ei benodi yn Ymgynghorydd Iaith i Sir Forgannwg ac yna'n Uwch Ymgynghorydd ym Morgannwg Ganol. Roedd yn fwrlwm o syniadau a 'roedd llwyddiant y cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn Nhŷ Dyffryn wedi symbylu nifer fawr o ddysgwyr i ddod yn rhugl yn yr iaith.

Ymddeolodd yn gynnar o fyd addysg gan iddo deimlo galwad gref i wneud cyfraniad at ddyfodol yr Eglwys yng Nghymru. Yn wir, bu ei deyrngarwch a'i ffyddlondeb i Eglwys Dewi Sant fel darllenwr-lleyg a llawer o swyddi eraill yn ddiarhebol. Cyflawnodd y cwrs hyfforddi ac fe'i sefydlwyd yn Ficer y Plwyf Llanfihangel-ar-Arth a Phencader. Gellid dadlau mai hwn oedd ei gyfnod mwyaf llwyddiannus. Llwyddodd i greu adfywiad yn y ddwy eglwys a'i gryfder mawr oedd ei gyfraniad cymdeithasol at holl fywyd yr ardal.

Dychwelodd i Benarth lle daliodd ati i weithio'n ddygn yn Eglwys Dewi Sant. Yn ogystal â hyn byddai'n dysgu dosbarthiadau Cymraeg, roedd yn weithgar iawn dros y Lleng Brydeinig ym Mhenarth ac roedd yn ysgrifennydd ymddiriedolwyr Tŷ'r Cymry am dros 30 blynedd.

Bydd Cymru yn dlotach o golli cymeriad mor lliwgar a diddorol ac estynnir y cydymdeimlad llwyraf â Sian, Iwan a Dafydd a'u teuluoedd.

**John Albert Evans**

*Isod mae copi o gerdd olaf Maxwell Evans yn rhoi teyrnged i'r Parch. Eifion Powell sy'n ymddeol eleni:*

I'r Cyfaill "Mawr" - Eifion
Fe'th fagwyd yn y cwm
mewn crud o ddiwylliant
a rhinweddau gorau Cymru.
Ac yn gynnar fe ddysgaist, mae'n siŵr
i ddyrchafu dy lygaid i'r mynyddoedd gerllaw.
Y Foel Fraith a Chefn Carn Fadog
yn dy ysbrydoli;
A'r Mynydd Du
a'i lwybr rhamantus i gyfeiriad Carreg Cennen.
Does rhyfedd dy fod wedi tyfu
yn gawr o gorff a meddwl.
A thros y blynyddoedd
wedi arllwys yn ôl
o elw cyfoeth dy fagwraeth
i roi urddas a bendith
i'r erwau a fugeiliaist.
Ai ti ai Paul
a deithiodd bellaf
i ledaenu'r newyddion da?
Braint fu cael dy adnabod
a'th alw'n gyfaill.
Ac mae gennyf lun ac atgof
a drysoraf.
Llangrannog ar ganol y pumdegau.
Y boi â'r coesau hirion
Fel dwy golofn alabastr glân,
a'r trowser câci fel rhyw lenni byrion
digonol jyst
i ddiogelu parchusrwydd y darpar Barchedig!
Ac er ymddeol nawr
o fagad gofalon bugail,
bydd dy bresenoldeb yn parhau, mae'n siŵr,
I gyfoethogi llawer oedfa a chymdeithas.
Diolchwn,
mai un felna wyt ti erioed.

**Y Parch Max Ifans a'i cant Ebrill 2002**

## ALLWCH CHI ENWI'R PARC?

Mae'r llyn a'r parc newydd yn Lamby Way wedi cael eu cwblhau ond mae angen enw parhaol ar y safle. Yr enw dros dro ar y safle yw Gogledd Lamby Way, ond nid yw hynny'n gwneud cyfiawnder â'r parc a'r llyn prydferth.

Os gallwch chi feddwl am enw priodol sy'n adlewyrchu tirlun y parc newydd gyda'i lyn deg erw a'i thema bywyd gwyllt, yna hoffai Cyngor Caerdydd glywed gennych chi.

Mae'r parc, sy'n rhan o raglen adfer safle Tirlenwi Lamby Way, yn barod i agor i'r cyhoedd. Cwblhawyd y gwaith tirlunio, gan gynnwys plannu helaeth, yn gynharach yn yr haf ac mae'r parc eisoes yn denu bywyd gwyllt.

Dylid anfon unrhyw enwau posibl sydd gennych chi ar gyfer y parc i Enwi'r Parc, Gwasanaethau Priffyrdd a Pharciau, Depo Wedal Road, Caerdydd CF14 3QX.

## CYRSIAU I OEDOLION

Erbyn hyn, dylech fod wedi derbyn eich copi o raglen cyrsiau rhan-amser ar gyfer oedolion, sy'n rhestri'r holl gyrsiau a gweithgareddau fydd ar gael o'r mis yma ymlaen.

Os nad ydych wedi derbyn eich copi eto, cysylltwch â chanolfan gyswllt y Cyngor ar (029) 2087 2088 i archebu'ch copi, neu gallwch ymweld â safle we'r Cyngor ar www.caerdydd.gov.uk i weld pa gyrsiau sydd ar gael eleni.

# Y Dinesydd

**Medi, Rhif 274.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Sian Parry-Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Nona Gruffudd-Evans ac Efa Gruffudd

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref 2002 erbyn 21 Medi at:**
Nona Gruffudd-Evans, 20 Coedlan Aubrey, Parc Fictoria, Caerdydd CF5 1AQ (e-bost: nona@gruffudd.org)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.
Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.................................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 34** **Medi 2002**



**Ar Draws**

1. A yw Tomos a'i awdl ddyrys yn llwm? (5)
4. 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw,
 ___ ___ o'i le, ni ie a nage yw' (EJ) (2,4)
7. Gweithiwr yn Lloegr yn dilyn Daloni druan er difyrrwch (9)
8. Amser i ddechrau oeri eich safn (3)
10. O'i gell rywsut mae Dafydd mewn amgylchiadau tywyll yn talu iawn (8)
13. Bod yn wrol pan fo'r Eisteddfod yn dechrau mewn amgylchiadau gwlyb (4)
15. Beth ___ ___ ___ ___ am Gymru? (THPW) (2'1,3,6,1)
16. Bwrdd neu blât wedi torri (4)
17. Dwrdiaf i yn grac, heb amcan (8)
20. Ffeindio pâr yn Lloegr wrth iddi dywyllu (3)
21. Hen linell bell nad yw'n bod,
 ___ ___ nad yw'n darfod (DGJ) (3,6)
24. A oes i'r ymlusgiad hwn dlysni o fath? (6)
25. Bron agosâu at fenyw (5)

**I Lawr**

1. Taer droi at Dafydd am sylfeini (5)
2. Ceir llawer o ganmol ar yn ail (3)
3. Rywsut yn y dellt y gwelaf gymeriad o ddrama'r geni (3,1,3)
4. Lluniwr cwch yn dechrau nofio o'i amgylch (3)
5. A ellir torri Awst yn fyr? (4)
6. Cyfodi Eli i ffeindio y blodyn hyn (6,1,2)
9. Cynddeiriogi un sir a gadael blas cas (6)
11. Cael brith gof am w^r sy'n dangos nad yw'n wir (9)
12. Defnyddio digon i roi siâr i bawb (5)
14. 'Pan fyddo'r enaid, ar y noson dduaf,
 ___ ___ ei nyth yn mynwes Duw ein Tad' (HEL) (2,6)
15. Yn y cystadlu mae'r etifeddiaeth (5)
18. Pentref yn y gorllewin neu tref fawr yng ngweddill Cymru? (5)
19. Buan mae lledrith yn dilyn Esyllt (4)
22. Codi hanes yn yr hwyr (3)
23. 'Gwelais ei ___ liw dydd
 Ar ffordd yr ucheldir iach' (EW) (3)

**Atebion Croesair 33**

**Ar draws:** 1. Odli; 8. Golchi dwylo; 9. Glofaol; 10. Bollt; 12. Iestyn; 14. Parabl; 15. Ffrainc; 17. Glanha; 18. Moli; 19. Ffenestr; 21. Llaneurgain; 22. Cochl. **I lawr:** 2. Disgleirio; 3. Igio; 4. Olrhain; 6. Tiwlip; 6. Cwmbwrla; 7. Llofft; 11. Lle bu harddwch; 13. Triniaeth; 16. Cyffordd; 17. Gwniad; 18. Mellt; 20. Sinc.

Derbyniwyd 16 ymgais a 10 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Maurin Hurley, 14 Greenwood Rd, Llandâf. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Beryl Hall, Cyncoed; Gwenda Hopkins, Llanisien; Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan; E Haydn Jones, Rhiwbina; Mair Morgan, Treganna; Dilys Prichard-Jones, Pwllheli; Huana Simpson, Y Bontfaen; Delwyn Tibbott, Pentyrch a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Medi 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Medi 2002.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 16 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson y Llywydd, Gwilym E. Roberts, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 16 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Y Palmant Aur.' Sgwrs gan Janet Parry Jones yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 17 Medi**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Taith i Batagonia gyda Dr a Mrs Denzil Davies, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Iau, 19 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Miss Eleri Evans. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Gwener, 20 Medi**
Cymdeithas Eglwys y Crwys, Heol Richmond: Sgwrs a datganiad gan Elinor Bennet yn Theatr y Crwys am 7.30 p.m. Tâl mynediad: £3. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 23 Medi**
Canolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes: Dosbarth yn trafod cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol dan arweiniad Dr E. Wyn James, yn Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili, am 7.00 p.m. Manylion pellach: 029-2062-8754 neu 029-2087-4831.

**Gwener, 27 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: ' "Y Cymro Fictoraidd Par Excellence": Trem ar Gyfraniad Gwilym Hiraethog i'r Bywyd Cyhoeddus yng Nghymru.' Darlith gan yr Athro J. Gwynfor Jones yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.00 p.m.

**Gwener, 4 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd: Noson y Llywydd newydd, Dr Hefin Jones, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.15 p.m.

**Gwener, 4 Hydref**
Cylch Cadwgan: Y Prifardd Mererid Hopwood yn siarad ar y testun 'Fflŵr a Dŵr a Dyddiau Da' yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf am 8 p.m. Pris mynediad: £4 (£2 i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr) yn cynnwys diod.

**Llun, 7 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills, Llandaf. Prif westai: Manon Rhys, Llenor a Chyd-Olygydd Taliesin. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Iau, 10 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Minny Street am 7.30 p.m.

**Gwener, 11 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. Gareth Rowlands yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 15 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson o dan ofal Gwyndaf Breeze, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Jac Glan-y-gors yn Llundain.' Darlith gan Dr E. G. Millward, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Gwener, 18 Hydref**
Cwmni Theatr Gwynedd yn cyflwyno 'Blodeuwedd' (Saunders Lewis) yn Theatr a Neuaddau Coffa y Barri am 7.30 p.m. Tocynnau: 01446-738622 neu 029-2030-4400.

**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Teithio trwy Gymru yng nghwmni Arwyn Michael, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 21 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Madam Llywydd.' Sgwrs gan Catrin Stevens yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 25 Hydref**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Fel Hen Win . . .' gan Valmai Jones, sioe deyrnged i fywyd a gwaith Wil Sam, yn Neuadd Llanofer, Caerdydd am 7.30 p.m. Tocynnau: 029-2063-1144. Manylion pellach: 01286-676335.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Diolch

Diolch o galon i Gymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd a nifer o unigolion am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau

... i Eryl a Heather Jones, Millwood, Llys-faen ar enedigaeth Mathew Llywelyn ar 23 Mai yn Ysbyty'r Brifysgol, brawd bach i Thomas Rhys.

... i Sally ac Owen Golding, Radyr, ar enedigaeth Stella Lowri yn Ysbyty'r Brifysgol ar 19eg Gorffennaf, chwaer fach i Meurig ac Amber.

... i Ffion, merch Elin a'r diweddar Rhys Tudur, Treganna, ar ei phriodas â Rhys Meilir yn Eglwys Ebeneser ar y 26 Gorffennaf. Byddan nhw'n ymgartrefu yn ardal Grangetown.

... i Dafydd Glyn Jones ar ei briodas gyda Jessica Jane Ellis ar 6 Ebrill yn Eglwys Llangynor.

... i Dafydd Bowen ar ei briodas gyda Caroline at ddydd Sadwrn 15fed Mehefin yn Horsham, West Sussex.

... i Rhys Owen-Jones a Rachel Carpenter a briododd yn Harrow ym mis Gorffennaf. Mae Rhys yn fab i Catherine a Stuart Owen-Jones o Gyncoed.

## Cydymdeimlo â

Beryl Emery, yr Eglwys Newydd, a'i theulu ar farwolaeth ei gŵr Dr Leonard Emery yn ysbyty'r Mynydd Bychan ar y 29 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar y 4 Gorffennaf.

- Doris James, Pen-y-lan, a'r teulu ar golli ei gwr Tom Ellis James yn 83 oed ar 13 Gorffennaf. Bu'n athro yn Ysgol Cathays am flynyddoedd cyn iddo ymddeol a bu'n organydd a blaenor yn Eglwys y Crwys. Bu'r angladd yn y Crwys ar y 22 Gorffennaf ac ym mynwent y Ddraenen wedi hynny.

- Mair James a'i theulu yn y Bontfaen ar golli ei thad John Saer yn 91 oed ar y 22 Gorffennaf. Brodor o'r Bala oedd John Saer.

- Myfanwy Clark, Rhiwbina, a'r teulu, ar farwolaeth ei mam yn Nyffryn Conwy ar ddiwedd mis Gorffennaf.

## Marwolaeth

Bu farw Dr Mike Apted, cyn Brifarolygydd Henebion Cymru, yn Ysbyty Kingston yn Surrey yn 83 oed. Yn ystod ei gyfnod fel Prif Arolygydd bu'n byw yn Rhiwbeina ac aeth ati i ddysgu Cymraeg gan sefyll nifer o arholiadau yn yr iaith nes iddo ddod yn rhugl. Safodd arholiad Gorsedd y Beirdd a chafodd ei urddo yn Eisteddfod Bro Myrddin yn 1974 dan yr enw Ap Edward Rhiwbeina. Cydymdeimlir â'i deulu yn eu colled.

## Marw yn y Rhyl

Bu farw Ceinwen Williams, 94 oed, gynt o Colum Rd Caerdydd, mewn cartref nyrsio yn y Rhyl ar y 3 Gorffennaf. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mae Colwyn. Cydymdeimlir â'i phlant Elizabeth a Rhys a'r teulu oll yn eu colled. Bu Ceinwen a'i theulu yn aelodau yn Eglwys y Crwys am flynyddoedd lawer a chyn mynd i'r Rhyl bu yng Nghartref Nyrsio "Cartre" ar lan Llyn Parc y Rhath. Roedd gan ei gwr deulu yn byw ym Mhatagonia a chyn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli ymwelodd berthnasau i'w gŵr o'r Wladfa â hi yn "Cartre".

## Tŷ'r Cymru


Cynhelir noson agoriadol Tŷ'r Cymry 2002-03 ar nos Fercher 18 Medi am 7.00 p.m. Ceir anerchiad gan Mr Keith Bush ar Carnhuanawc a bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn. Croeso i bawb.

## LLWYDDIANT I GYNLLUNIAU CHWARAE MENTER CAERDYDD

Yn ystod yr hâf mae Menter Caerdydd wedi trefnu 3 cynllun chwarae, sydd ar hyn o bryd yn rhedeg am y pedwar wythnos cyntaf o'r gwyliau hâf. Maent yn rhedeg yn Ysgol Bro Eirwg yn Llanrhymni, Ysgol Pwll Coch yn Lecwydd a Ysgol Coed Y Gof yn Y Tyllgoed. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i'r plant fwynhau, drwy gyfrwng y Gymraeg, amrhyw o weithgareddau a tripiau yn ystod y pedwar wythnos. Mae hyn yn cynnwys trip i'r fferm, nofio yn y ganolfan hamdden lleol, ac hefyd yn cael ei ddiddannu gan glown, dawnswyr, sioeau hud a mwy. Mae'r cynlluniau wedi denu dros 200 o blant y dydd.

Dywed Siân Lewis, Swyddog Datblygu'r Fenter, "Mae'r Cynlluniau Chwarae y flwyddyn yma eto wedi bod yn llwyddiant aruthrol gyda 'r niferoedd yn codi bob dydd. Rydyn yn gobeithio adeiladu ar y gwaith llwyddiannus yma gan gydweithio gyda Chlybiau Plant Cymru a Chronfa Cyfleoedd Newydd er mwyn sefydlu cynlluniau chwarae Cymraeg trwy gydol y flwyddyn".

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Siân Lewis, Swyddog Datblygu Menter Caerdydd ar 029 2045 0529.



## TRAFOD Y CYFANSODDIADAU

Bydd nifer o Gymry Caerdydd yn croesi Mynydd Caerffili ar nosweithiau Llun unwaith y mis dros y gaeaf. Pam? Er mwyn ymuno â chyfeillion o'r Cymoedd i drafod cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol mewn dosbarth misol dan nawdd Canolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Lun, 23 Medi, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili. Arweinir y drafodaeth gan Dr E. Wyn James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a gellir derbyn rhagor o fanylion trwy gysylltu ag ef ar 029-2062-8754.

## Y BASN HIRGRWN YN TROI YN ROALD DAHLS PLASS

Mae Basn Hirgrwn Bae Caerdydd wedi cael ei ailenwi yn Roald Dahls Plass er cof am y diweddar awdur, a aned ac a fagwyd yn Llandaf. Adeg ei farwolaeth ym 1990, roedd llyfrau Dahl wedi cael eu cyhoeddi mewn dros 22 o ieithoedd.Yn bresennol yn y seremoni roedd gweddw Roald Dahl, Felicity, Llysgennad Norwy, Tarald Brautaset, a chynrychiolwyr o Hordaland yn Norwy.

## DADORCHUDDIO DARLUN

Yn ddiweddar dadorchuddiwyd darlun gan yr arlunydd adnabyddus David Griffiths o'r Athro Eric Sunderland. Bydd y darlun yn cael ei hongian yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae Ray Sunderland, Rhiwbeina, yn frawd i'r Athro Sunderland.

## GADEWCH EICH CAR AC YMUNWCH

Ar ddydd Sul, 22 Medi, bydd Cyngor Caerdydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad rhyngwladol a fydd yn cynnwys dinasoedd a threfi o bob rhan o'r DU ac Ewrop.

Bydd y cynllun, o'r enw 'Yn y Dref heb Gar', yn rhoi cyfle i bobl fwynhau manteision amgylchedd heb geir, lle gallant gerdded yn gyffyrddus ac yn ddiogel.

Cynhelir y digwyddiad eleni ar y cyd â Dathliad y Ddaear, sy'n dathlu 10 mlwyddiant Uwch-gynhadledd y Ddaear yn Rio ac a fydd yn canolbwyntio ar Heol Eglwys Fair, un o'r prif ffyrdd drwy'r ddinas, a fydd ar gau i draffig ar y diwrnod.

Cynlluniwyd rhaglen o ddigwyddiadau, o deithiau tywys a thaith feiciau o Heol Eglwys Fair, o gwmpas Bae Caerdydd ac ar draws yr argae, i adloniant stryd. Bydd gorsaf MOT beics ar gael a bydd tîm arddangos BMX a sgrialu yn diddanu'r dorf gyda'u campau. I gael rhagor o fanylion am y diwrnod, ffoniwch Phillip Jones ar 2087 3314.

## GWYL GERDD YN TARO TANT

Nid y bryniau'n unig fydd yn fyw gyda sŵn cerddoriaeth pan ddaw Gŵyl Theatr Gerdd Ryngwladol gyntaf Caerdydd i'r ddinas ym mis Hydref. Gyda dros gant o ddigwyddiadau mewn 10 o wahanol leoliadau, bydd y dathliad tair wythnos o hyd yn gwneud ei ran wrth ddod â chydnabyddiaeth ryngwladol bellach i Gymru.

Mae gan yr Wyl, a gynorthwyir gan Gyngor Caerdydd, ran amlwg i'w chwarae yng nghais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 a daliodd sylw'r beirniaid yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r ddinas.

Gyda chymaint i'w gynnig, gallai fod yn anodd dewis rhwng *Babes in Arms* Rodgers a Hart yn y Theatr Newydd, *Oklahoma!* Rodgers a Hammerstein yn y Sherman, *Ragtime* the Musical, *Carousel* neu *Joan of Arc* o Prague oll yn Neuadd Dewi Sant.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch linell docynnau'r Wyl ar 0870 904 2003, mae llyfrynnau ar gael o swyddfa'r ŵyl ar 2090 1111, neu ewch i'r wefan sef: www.cardiffmusicals.com

## JOHN OWEN HUGHES

Mae detholiad o waith y diweddar John Owen Huws newydd ei gyhoeddi, sy'n cynnwys casgliad o'i erthyglau ynghyd â deg ysgrif newydd wedi'u comisiynu'n arbennig. Enw'r gyfrol yw *Ar lafar ei wlad* ac mae'r deunydd yn agor y drysau yn lletach inni glosio at bynciau yr oedd John yn ymddiddori ynddynt yn fawr. Y gost yw £10.

## PRIODAS TAIRIEITHOG

Cafwyd seremoni dairieithog - Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg - yn Swyddfa Gofrestru Plas y Parc, Caerdydd ar y 29 Mehefin pan briododd Ana Clara Cantero Simms, gynt o Drevelin yn yr Andes, â David Warren, gynt o Lundain ond o dras Albanaidd. Gweinyddwyd y seremoni gan Janet Ogwen, y dirprwy gofrestrydd. Cyfarfu'r ddau ar gwrs Cymraeg Coleg y Brifysgol Llanbedr y llynedd a byddant yn ymgartrefu yng Nghaerdydd.

## DYMUNIADAU GORAU

Ymddeoliad hapus a hir i Linda Moran, Llandaf, athrawes ymgynghorol ail iaith ysgolion cynradd Dinas Caerdydd. Cynhaliwyd parti ymddeol iddi yng Ngwesty'r Hilton gydag 80 yn bresennol. Ei holynydd ydy Ann Samuel, Penarth.

Ymddeoliad hapus a hir hefyd i Sarah Barr, Rhiwbina, prifathrawes Ysgol Bryn Deri, Radyr.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbina

Llongyfarchiadau i Llyr Dunsford ar ennill gwobr o bum cant o bunnau yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth a drefnwyd gan raglen "Celfyddydau" Radio Cymru. Testun ei gasgliad oedd "Gwerin". Mae Llyr newydd raddio yng Ngholeg Gwent.

Roeddem yn falch o glywed am lwyddiant Angharad Davies, Nerys Jones a Nicholas Clark yn yr arholiadau lefel uwch. Bydd Angharad yn cychwyn ar gwrs pensaernïaeth a Nerys ar gwrs meddygaeth, y ddwy yng Nghaerdydd ar ôl blwyddyn o egwyl. Bydd Nicholas yn mynd i Goleg Loughborough.

Cydymdeimlir yn fawr â Mrs Myfanwy Clark a'i theulu yn eu profedigaeth. Bu farw mam Myfanwy ddechrau Awst. Roeddem yn falch iawn o gael ei chroesawu i Fethel bob tro y deuai o Ddolgarrog i dreulio amser gyda'r teulu yn Rhiwbeina.

Bedyddiwyd Esyllt Awel, merch fach Angela a Mark Parry Lowther gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Mae Esyllt yn chwaer i Elan, Mali ac Osian.

Roedd dau o lanciau cyhyrog Bethel ymhlith y garfan o Ysgol Glantaf fu ar y daith i Awstralia. Balch o ddeall bod Aled Hill a Gareth Jones wedi mwyhau eu hunain.

Bu'n rhaid adnewyddu ystafell arall yn y capel yn ystod yr haf er mwyn cael mwy o le i'r Ysgol Sul.

## Ebeneser, Caerdydd

Cawsom y fraint o groesawu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i Gaerdydd ar ddiwedd mis Mehefin. Roedd dau uchafbwynt i ni fel eglwys. Yn gyntaf, cyflwyniad gan rai o bobl ifanc yr eglwys yn gosod her ar gyfer y dyfodol o safbwynt ennyn a chynnal diddordeb yr ifanc ym mywyd eglwysi Cymru heddiw. Yna, yng nghyfarfod olaf yr Undeb, urddwyd y Parchg Ddr Geraint Tudur, ein cyn-weinidog, yn Llywydd yr Undeb am y flwyddyn i ddod. Traddododd araith rymus a di-flewyn-ar-dafod ar y testun "Yng Nghysgod y Ferywen". Yn hytrach na'i chrynhoi yma, beth am ei darllen yn gyfan ar y we - ewch i http://www.annibynwyr.org/Anerchiad%20y%20Llywydd.htm

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Glyn Jones ar ei briodas gyda Jessica Jane Ellis ar 6ed Ebrill yn Eglwys Llangynor.
Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Bowen ar ei briodas gyda Caroline ar ddydd Sadwrn 15fed Mehefin yn Horsham, West Sussex. Ein dymuniadau gorau a bendith y nef arnynt.

## Minny Street, Caerdydd

Dros fisoedd yr haf mae oedfaon yng ngofal aelodau wedi parhau. Cawsom fendith dan arweiniad Elin Smith a nifer o aelodau iau yr Eglwys ym mis Mehefin a bu cyfeillion cylch yr Eglwys Newydd yn arwain oedfa ym mis Gorffennaf. Cawsom hefyd oedfa dan ofal Dewi Owen, un o'n haelodau iau sydd wedi penderfynu cynnig ei hun i'r Weinidogaeth Gristnogol. Yn dilyn yr oedfa, ein braint fel eglwys oedd cael cefnogi'n gwbl unfrydol ei ddymuniad i'w enw gael ei osod ger bron Cwrdd Chwarter y Cyfundeb. Wedi prysurdeb mis Mehefin a'r Urdd daeth tymor yr Ysgol Sul i ben gydag oedfa foreol Sul cyntaf mis Gorffennaf, oedfa gynnar ar yr ail Sul, ac yna Barbeciw a chwaraeon ym mharc Cosmeston - a chan i'r tywydd parhau'n braf a heulog gydol y prynhawn cafwyd amser da gan bawb - yn blant, ieuenctid a phobl ychydig yn hŷn! Yn unol â'n harfer ym mis Awst, hyfrydwch unwaith yn rhagor oedd cael cydaddoli â chyfeillion Eglwys y Crwys.

Llawenydd i'r eglwys gyfan oedd penderfyniad unfrydol Cwrdd Eglwys ddechrau Mehefin i estyn galwad i'r Parchg Owain Llyr Evans (Rhos, Ponciau a Wrecsam) i ddod yn weinidog ym Minny Street. Hyfrydwch hefyd oedd cael darllen lythyr oddi wrth y Parchg Owain Llyr yn cadarnhau ei fod yn derbyn yr alwad. Edrychwn ymlaen yn frwdfrydig at ei groesawi ef a'i briod, Lona (sydd wedi cael swydd yn ysgol "Cardiff High") atom ym mis Hydref. Cynhelir y Cyfarfod Sefydlu ym Minny Street brynhawn Sadwrn, Hydref 5ed.

Llawenydd pellach i ni fel Eglwys oedd cael y cyfle i ddymuno'n dda i'n Gweinidog, y Parchg Eifion Powell ar ei briodas â Mrs Catherine Lane brynhawn Mawrth, Gorffennaf 23. Cawsom gyfle i gyflwyno darlun olew o waith un o'n haelodau, Mr Seiriol Davies, yn yr oedfa Gymun Sul cyntaf Gorffennaf fel arwydd o'n dymuniadau gorau fel Eglwys i'r ddau a hwythau ar gychwyn pennod newydd yn eu hanes.

Bu nifer o'r aelodau ynghlwm â threfniadau croesawi Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i Gaerdydd wythnos olaf mis Mehefin a chynhaliwyd yr Oedfa Bregeth (gyda phregethau gan y Parchedigion Dyfrig Rees a Vivian Jones) ym Minny Street. `Roedd y chwiorydd wedi paratoi lluniaeth ysgafn i'r gynulleidfa gyfan yn y festri yn dilyn yr oedfa.

Croesawn ddau aelod newydd a ddaeth atom ym mis Gorffennaf sef Eirug Wyn Williams (Penylan) a Nuria Marquez Almuiña (Llanisien) a chroeso cynnes iawn hefyd i Efa Angharad - ail ferch fach i Angharad Mair a Jonathan Cray a chwaer fach i Tanwen. Yn ystod y misoedd diwethaf hefyd cawsom hefyd y fraint o dystio i fedydd dau fachgen bach: Daniel Llyr - mab Hawys a Phillip Thomas (Llysfaen) a brawd i Catrin - a Gruffydd Dylan - mab Rhian a Dafydd Elfyn Williams (Llysfaen). Dymunwn yn dda i'r teuluoedd yma i gyd.

## Eglwys Undodaidd West Grove

Ddechrau'r haf chwyddwyd y gynulleidfa Gymraeg arferol gan lond bws o ymwelwyr o gapeli Undodaidd cylch Llanbedr Pont Steffan yng nghwmni eu gweinidog y Parchedig Goronwy Evans. Gan fod cynifer o blant y Smotyn Du bellach yn gweithio yng Nghaerdydd tybid y byddai hyn yn gyfle i'r rhieni gael cwrdd â'u plant yn awyrgylch y capel - a'u hysgogi hefyd i fynychu'r cwrdd Cymraeg yma yng Nghaerdydd yn rheolaidd. Bu'r gwasanaeth yn un hynod o hapus a chyflwynwyd amlinelliad o hanes Undodiaeth yng Nghaerdydd gan y gweinidog, y Parchedig Eric Jones. Yng ngwasanaeth mis Mehefin pregethwyd yng Nghapel Penrhiw (Sain Ffagan) gan Mr Wyn Thomas, myfyriwr ifanc â'i bryd ar ymbaratoi am y weinidogaeth Undodaidd.

Deil y Cylch Trafod Cymraeg i gwrdd yn rheolaidd. Y llynedd cafwyd cyfres o gyfarfodydd "atgofion" pan fu nifer o'r aelodau yn trafod nodweddion ac arwyddocâd bröydd eu mebyd. Cafwyd cyfraniadau gan Winifred John (Porthmadog), Sali Evans (ardal Llandysul), Eric Jones (Llanbedr ac Aberdâr) a Gareth Evans (Gwaencaegurwen). Bu Ann Bunford yn trafod lle a dylanwad cerddoriaeth yn ei bywyd a chafwyd cyfarfodydd eraill yng ngofal Diana Bianchi ("Bywyd a Gwaith Jenkin Lloyd Jones, Chicago") a chan Elwyn Hughes ("Y Parchedig Horatio Thomas, Pentyrch a'i gyfnod"). Eleni mabwysiadwyd patrwm newydd ar gyfer y cyfarfodydd trwy estyn gwahoddiad i siaradwyr o'r tu allan i rannu ei daliadau a'u profiadau gyda ni. Cafwyd cyfarfod yn null y Crynwyr dan arweiniad Arthur Saunders, a bu'r Dr Harri Pritchard Jones yn trafod Undodiaeth o safbwynt aelod o'r Eglwys Gatholig, ac ym mis Mehefin bu Richard Jones gyda ni yn sôn am ei waith gydag Oxfam a'r Cenhedloedd Unedig.

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn ystod penwythnos olaf Mehefin. Thema'r ŵyl oedd "Ein hetifeddiaeth deg" ac adlewyrchai'r arddangosfeydd holl amrywiaeth naturiol Cymru ynghyd â'n traddodiadau llenyddol, cerddorol a Christnogol. Roedd yr eglwys yn hardd dros ben a'r gwragedd wedi bod wrthi'n paratoi ers tro o dan arweiniad aelodau Clwb Trefnu Blodau Rhiwbeina. Paratowyd rhaglen er mwyn ein tywys o gwmpas yr eglwys, a oedd yn cynnwys dyfyniadau ystyrlon o'r Beibl a gwaith ein beirdd, a ychwanegai'n fawr at bob arddangosfa.

Roedd cyngerdd awr ginio yn rhan o'r ŵyl gyda pherfformiadau gan rai o'r aelodau, sef Ceri Mears (soprano), Shirley Close (trombôn) a David Leggett (organ). Daeth yr ŵyl i ben nos Sul pan gynhaliwyd gwasanaeth o fawl. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Athro Thomas Watkin.

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Maxwell Evans. Roedd Max yn berson arbennig iawn ac roedd y dyrfa luosog a ddaeth i'w angladd yn dystiolaeth o hynny. Bydd yn gadael bwlch mawr nid yn unig ym mywyd ei deulu ond mewn sawl eglwys a chylch arall.

### Eglwys y Crwys

Trefnodd y Grŵp Merched, De Mefus llwyddiannus iawn yng nghartref Mr John Lloyd a'r teulu brynhawn Sadwrn 13 Gorffennaf. Gwnaeth yr ymdrech arbennig hon elw o ryw bedwar cant o bunnoedd ac fe'i cyflwynwyd i gronfa Apêl Bangladesh a drefnwyd gan y Cyfundeb ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Mae Mrs Siân Griffiths wedi ymddeol fel arolygydd Ysgol Sul y plant. Cofnodwyd hynny trwy gyflwyno iddi dusw o flodau fel arwydd o ddiolch mewn seremoni fechan a drefnwyd fore Sul 21 Gorffennaf. Ei holynydd fydd Mrs Ceri Innes-Parry.

### Sgwrs a Datganiad

Bydd Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys y Crwys yn lansio tymor newydd y Gymdeithas gyda "Sgwrs a Datganiad" gan Elinor Bennett ar nos Wener Medi 20fed am 7.30pm. Mae hon yn noson a gefnogir gan Gyngor y Celfyddydau ac o'r herwydd yn agored i bawb sydd â diddordeb yn yr agwedd yma o'n diwylliant. Mae'r tâl mynediad yn £3 a gellir sicrhau tocynnau ymlaen llaw trwy ffonio un o'r rhifau a ganlyn: (029) 20753625, 20843298 neu 20708253 neu gellir talu wrth y drws.

### Tabernacl, Caerdydd

Llongyfarchiadau calonnog i Eirlys a Carwyn Rodrick ar ddathlu eu priodas aur, a'r un cyfarchiad i Dafydd a Kitty Davies wrth iddynt hwythau hefyd edrych yn ôl dros hanner can mlynedd o rannu bywyd.

Mae nifer o fechgyn ifanc yr eglwys yn olffwyr a chricedwyr dawnus, ac fe gafodd Owain Williams gyfleoedd cyson i ddangos ei ddoniau fel batiwr i'r tîm cenedlaethol yn ei oedran.

Rhannwn lawennydd Hanna Sennit a Dewi Preece ar gael eu dewis i gymryd rhan mewn taith Opera i'r ifanc. Buont yn crwydro ar hyd Cymru a Lloegr.

Bu Tim Richards yn canu yn nathliadau bywyd Joseff Parry mewn cyngerdd ym Merthyr ar nos Sul olaf Gorffennaf. Canodd hefyd yng nghyngerdd Eisteddfod Tŷ Ddewi ar y nos Sul gyntaf. Ac yntau ar fin newid gyrfa, edrychwn ymlaen i'w glywed yn pregethu yn y Tabernacl ym mis Medi.

### TAITH HAF TY'R CYMRY

Roedd hi'n noson hyfryd o haf ar y 26 Mehefin pan aeth aelodau Tŷ'r Cymry ar eu taith haf flynyddol i Sir Fynwy. Ymwelwyd ag eglwys hynafol Llangwm Uchel ac edmygu'r sgrîn hynod o gywrain ac unigryw yno cyn ymweld â thre fach dlws Brynbuga ac ymweld ag Eglwys Fair yno cyn gorffen y daith gyda swper mewn tafarn yn ardal Llandegfedd. Yn ystod y daith cafwyd sylwadau yn y gwahanol fannau gan Michael Francis Casnewydd a Iorwerth Morgan Caerdydd.



### NOSON I'W CHOFIO



Cafwyd noson i'w chofio pan ddaeth saith o enillwyr o Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd ynghyd ar nos Sadwrn 29 Mehefin yn Theatr Stanwell, Penarth, i ymgiprys am Ysgoloriaeth Bryn Terfel gwerth £2000 o bunnoedd. Cafwyd perfformiadau gwefreiddiol gan y saith ac enillydd y noson oedd Rhian Mair Lewis o Idole, Caerfyrddin. Cyflwynwyd y fedal a'r siec iddi gan Fflur Wyn, enillydd yr ysgoloriaeth llynedd.

### BWRDD MORGEISI YN CODI YMWYBYDDIAETH

Mae Bwrdd Cydymffurfio'r Cod Morgeisi (Bwrdd Morgeisi), y bwrdd gwarchod defnyddwyr a'r corff rheoli anstatudol i'r diwydiant benthyciadau ar gyfer cartrefi yn y DU, wedi cyfieithu'r daflen *You and your Mortgage* - sef y ddogfen sy'n crynhoi'r diogelwch i ddefnyddwyr a gynigir gan y Cod Morgeisi - i saith o'r ieithoedd mwyaf cyffredin heblaw'r Saesneg yn y DU gan gynnwys y Gymraeg.

Mae'n ofynnol i fenthycwyr a chyfryngwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Cod Morgeisi roi copi o'r daflen You and your Mortgage i bob cwsmer ar ddechrau'r broses o werthu morgais. Erbyn hyn mae'r daflen Chi a'ch Morgais ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag Wrdw, Hindi, Bengali, Gwjarati, Pwnjabi a Chantoneg.

Gall benthycwyr islwytho copïau o gyfieithiad y daflen i'w cwsmeriaid. Gall rhai sy'n prynu cartref weld y daflen yn uniongyrchol hefyd ar y we ar www.mortgagecode.org.uk.

### CYFRES NEWYDD



Ymysg yr actorion ar gyfres newydd S4C, Xtra, mae Catryn Ramasut, cyn ddisgybl o Ysgol Glantaf. Mae Catryn yn wyneb cyfarwydd fel cyflwynydd ond dyma'r tro cyntaf iddi actio mewn drama deledu. Mae Xtra yn gyfres i bobl ifanc, am bobl ifanc a bydd y gyfres yn dechrau ar Fedi 9fed.

## Lansio 'Bore Coffi Mwya'r Byd' ar yr Argae

Bydd cymeriadau lliwgar yr Hetiwr Hurt, Alis a'r Pathew yn ymuno â chyflwynydd newyddion y BBC Sian Lloyd wrth iddi lansio Bore Coffi Mwya'r Byd ar Argae Bae Caerdydd. Disgwylir i filiwn a hanner o bobl gymryd rhan yn y digwyddiad, a fydd yn codi arian hollbwysig i Macmillan Cancer Relief, ar 27 Medi. I gael pecyn codi arian, ffoniwch 0845 602 1246.

## Yr Argae yn ei Flodau

Mae'r Argae yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau am y tro cyntaf eleni yn y categori ar gyfer cynlluniau i wella amgylchedd cymunedau. Mae'r argae eisoes wedi ennill sawl gwobr adeiladu a dywedodd y Cynghorydd Marion Drake, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Menter, ei bod yn gobeithio ychwanegu gwobr Cymru yn ei Blodau at y rhestr.

Bu'n her arbennig i'r Cyngor am fod yr argae yn wyntog iawn ac yn agored i bob math o dywydd ac yn y diwedd dewiswyd planhigion fel Iwca, Cromiwm, a phorfeydd a blodau gwyllt morol, yn arbennig am eu bod yn gallu gwrthsefyll amodau newidiol y tywydd.

## Cardiau Post

Cynhelir ffair gardiau post yn Neuadd Gymunedol y Rhath, Pen-y-lan, rhwng 10am a 4pm ar Fedi'r 28ain. Roedd cardiau post yn ffurf boblogaidd iawn o gyfathrebu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac mae miloedd o'r cardiau yma dal yn bodoli, ac o ddiddordeb i genhedlaeth newydd o gasglwyr a haneswyr. Croeso i bawb.

## Newyddion o Dŷ Ddewi

Llongyfarchiadau i Christine James, yr Eglwys Newydd, sy'n ysgolhaig yn Adran y Gymraeg Coleg Prifysgol Cymru Abertawe ar ei hurddo er anrhydedd yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi. Y llynedd ymddangosodd y gyfrol "Cerddi Gwenallt" o dan ei golygyddiaeth hi. Mae Christine yn wraig i Dr E Wyn James, Cadeirydd Pwyllgor *y Dinesydd.*

Llongyfarchiadau hefyd i Mandy James, Caerdydd, a gafodd ei hurddo yn y wisg las yn Nhŷ Ddewi; i Sian Meinir Lewis, Penarth, Enillydd Gwobr Goffa David Ellis - y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych; ac i Mererid Hopwood gynt o Gaerdydd, Bardd Gadair Eisteddfod Dinbych.

Llongyfarchiadau i Gôr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen ar ennill y brif wobr yn y gystadleuaeth i gorau dros 45 o leisiau yn yr Eisteddfod.

Enillydd Medal Aur yn y Celfyddydau Cain oedd yr arlunydd Dr Ivor Davies, Penarth. Carodd wobr o £3000 a bwriada sefydlu ysgoloriaeth i artistiaid ifanc gyda'r arian.

A llongyfarchiadau i Liz Morgan o Lanbedr y Fro a Sian Jenkins o Ddinas Powys am fod ymysg Dysgwyr y Flwyddyn.

## Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Bydd y Cylch yn ailgychwyn ym mis Hydref ar ôl egwyl yr haf. Cynhelir y cyfarfodydd ar nosweithiau Llun yng Ngwesty Churchills, Llandaf. Dyma'r rhaglen hyd at fis Rhagfyr:

**Hydref 7**, byddwn yn cyfarfod yng nghwmni Manon Rhys, Llenor a Chyd-Olygydd "Taliesin"; **Tachwedd 4ydd** bydd Dai Jones, un o gymeriadau mwyaf lliwgar y teledu, yn ŵr gwadd, ac ar nos **Lun, Rhagfyr 2il** Mr Glyn Powell fydd y prif westai, yn siarad am hanes methiant yr awdurdodau dŵr i foddi Cwm Senni yn y 70au - hanes arwrol pobol y fro i amddiffyn eu treftadaeth. Am fanylion ychwanegol cysyllter â Tony Couch ar 029 2075 3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk

## Ydy Alcohol yn Costio Mwy Nag Arian?

I'r rhan fwyaf o bobl mae cae cwpwl o beints gyda chyfeillion, neu yfed gwin gyda phryd o fwyd, yn brofiad pleserus. Ond i rai, fe all alcohol fod yn broblem a phan mae hynny'n digwydd mae'n troi bywyd yn uffern. Mae'n chwalu teuluoedd, gyrru pobl i ddyled ariannol ac yn lladd miloedd y flwyddyn.

Eto, salwch ydyw ac mae meddygon yn derbyn hyn bellach. Fel pob clefyd mae 'na siawns i'w wella - hyd yn oed i'r sawl sy'n teimlo'n hollol ddiobaith.

Os ydych chi, neu rywun sy'n agos atoch, yn dioddef o'r clefyd yma, cysylltwch ag Alcoholics Anonymous - AA. Peidiwch â bod ofn na chywilydd - dyma gyfle i drafod eich problemau gyda phobl gafodd, neu sy'n cael, yr un profiadau. Bydd rhai yn newydd i AA, eraill wedi bod yn sobor ers ugain mlynedd, ond dim ond ni fydd yn yr ystafell a dim ond ni sy'n gwybod lle ni'n cwrdd.

Os ydych chi'n teimlo gall AA fod o gymorth i chi neu rywun annwyl i chi sy'n cael problem gydag alcohol, ffoniwch AA ar 0845 769 7555 unrhyw bryd o'r dydd neu'r nos - a gofynnwch am rywun sy'n siarad Cymraeg. Ni fydd rhaid i chi roi'ch enw - ond fe allai'r un alwad fach yna achub eich bywyd.

## Tymor Newydd o Gyngherddau Awr Ginio

Mae tymor yr Hydref o Gyngherddau Awr Ginio, *Seiniau i'w Sawru*, yn cychwyn yn Neuadd Dewi Sant ddydd Mawrth 17 o Fedi (1.05 pm) gyda pherfformiad gan y soddgrythor Matthew Sharp a'r pianydd Dominic Harlan.

Mae'r deuawd ifanc yma'n perfformio *Suite Italienne* Stravinsky a Sonata Rachmaninov. Mae gan Matthew Sharp, un o aelodau sylfaenu'r grŵp theatr gerdd Gogmagogs, gefndir cerddorol eang ac yn ogystal â llawer o berfformiadau cyngerdd mae wedi recordio gyda'r grŵp roc Kula Shaker ac wedi chwarae sacsoffon jazz ar albwm newydd Ian Ballamy.

Mae tocynnau i'r cyngerdd, sy'n costio £4.00 â disgowntiau a thocynnau tymor ar gael, ar werth o Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant ar 029 2087 8444. Am gopi am ddim o raglen Neuadd Dewi Sant ffoniwch yr Adran Farchnata ar 029 2087 8543.

## Côr Eglwys Dewi Sant, Caerdydd

Y mae Cyfarwyddwr Cerdd Eglwys Dewi Sant am ychwanegu at aelodau'r côr sefydlog sy'n canu yn wythnosol yn ystod Yr Offeren ar fore Sul.



Cennir amryw o gerddoriaeth gan gynnwys darnau o waith Palestrina, Victoria a Bruckner ynghyd â chyfansoddiadau cyfoes Rutter a Geraint Lewis.

Am fanylion pellach cysylltwch â David Leggett
Ffon: 029 2019 8159 / 07769663569
e-bost: leggettdm@hotmail.com

# TUDALEN YR URDD




## Taith yr Urddaholics i wlad Pwyl 2002

Efallai fod rhai wedi gweld y rhaglen Wedi 6 ym mis Gorffennaf a gweld criw bywiog o bobl ifanc yn barod i fynd allan i Wlad Pwyl i wneud gwaith dyngarol. Ymysg y criw oedd Elenid Hatcher, Anthony Boden a Sioned Wyn o Ysgol Plasmawr ac ar ôl wythnosau o godi arian, dros £6300 i gyd, roedd y criw yn barod i gychwyn eu taith 24 o Wersyll Glan Llyn i gartref plant yn Legnica yng Ngwlad Pwyl.

Pwrpas y daith oedd aros mewn cartref i 67 o blant amddifad gyda'r bwriad o gymdeithasu, gwneud ffrindiau newydd a gwneud ychydig o waith gyda'r £6300 y codwyd. Roedd y plant yn blant amddifad ac roedd gan y cartref £10 y mis i ddilladau, bwydo ac addysgu'r plant. Roedd eu croeso a'u cyfeillgarwch yn arbennig a chyn hir roeddent wedi dysgu criw yr Urddaholics i gyfri ym Mhwyleg, dweud helo, nos da, diolch ac yn y blaen.

Cafodd yr Urddaholics y cyfle i ddysgu caneuon difyr iawn yn yr iaith Gymraeg i blant gwlad Pwyl, gan hefyd ddangos dawnsfeydd a dawnsio clocsio traddodiadol yn ystod eu noson olaf yn y cartref!!

Hoffai criw yr Urddaholics ddiolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r codi arian. Llwyddwyd i brynu ystafell gyfrifiaduron cyfan iddynt, 5 cyfrifiadur, byrddau, cadeiriau addas ar gyfer cyfrifiaduron, paent a rhoddion. Yn ogystal â hyn byddwn yn gallu eu gwahodd yn ôl i Langrannog neu Lan Llyn, unai dros wyliau'r Pasg neu Haf 2003.

Mi roedd hi'n daith hynod o lwyddiannus, gyda nifer o'r criw yn gadael yn teimlo'n emosiynol iawn am y profiadau ar hyn cafodd ei gyflawni ar y daith. Ar ôl y daith nododd un o'r Urddaholics, "wna i byth gymryd dim byd yn ganiataol eto". Dyna oedd y teimlad cyffredinol ar ôl y daith gan bawb. Llongyfarchiadau iddynt.


# Ysgol Gyfun Fitzalan

## Cymraeg yn y Gweithle

Cafodd ddisgyblion Ysgol Gyfun Fitzalan gyfle i ddysgu am bwysigrwydd y Gymraeg yn y Gweithle yn ystod dau ddiwrnod 'Cymraeg mewn Busnes'.

Roedd Cyngor Caerdydd, y BBC a'r Fyddin ymysg y sefydliadau fu'n bresennol i esbonio pam fod y Gymraeg yn fanteisiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith.

Dywedodd Catherine Jones, Uwch Gyfieithydd Cyngor Caerdydd, bod y ddau ddiwrnod wedi bod yn llwyddiant mawr. "Mae sefyllfaoedd yn codi mewn pob math o swyddi lle mae medrau yn y Gymraeg yn fonws ac mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn cynyddu bob dydd. Mae'r diwrnodau hyn wedi bod yn werthfawr dros ben wrth ddangos i'r disgyblion bod manteision di-ri i ddysgu Cymraeg ac nad iaith yr ystafell ddosbarth yn unig mohoni," dywedodd.




## Mudiad Ysgolion Meithrin

Eleni cynhelir cyfarfod blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin ar ddydd Sadwrn 5 Hydref yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert, Ceredigion. Yn ystod y cyfarfod ceir anerchiad gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad.

## Cylch Meithrin Rhiwbeina

Cafwyd noson hwyliog yn y King Balti, Heol Albany, yn ddiweddar pan fu pwyllgor, rhieni a staff Cylch Meithrin Rhiwbeina yn diolch i Lorenza Thomas am ei chefnogaeth i'r Cylch ers dros 16 mlynedd fel rhiant i ddechrau, ac yna fel aelod o'r staff ers 6 mlynedd. Dymuniadau gorau i Lorenza wrth ail-afael yn ei gyrfa nyrsio.

## Gyrwyr Gorau ar ei Ffordd i Gaerdydd

Unwaith eto mae'r Rali Network Q ar ei ffordd yn ôl i Gaerdydd. Mae rownd derfynol Pencampwriaeth Rali'r Byd wedi cael ei chynnal yn y ddinas dros y ddau dymor diwethaf a'r newyddion da i gefnogwyr lleol yw y bydd cyfle ychwanegol y flwyddyn yma i fwynhau rali o safon ryngwladol yn y ddinas.

Cynhelir tri chymal arbennig yn yr arena yn y dociau, lle bydd gyrwyr gorau'r byd yn gyrru ben wrth ben o dan y llifoleuadau. Mae cymalau arbennig Caerdydd wedi dod yn boblogaidd iawn, yn enwedig ymysg y rheiny sy'n newydd i ralïau neu'n dymuno dod â'u teuluoedd i fwynhau mewn awyrgylch cymharol gyffyrddus.

Dim ond un elfen o'r ras yw'r SuperSpecials. Pob bore, bydd y gyrwyr yn gadael eu lleoliad dros nos yng nghanol dinas Caerdydd ac yn gwneud eu ffordd am ddiwrnod llawn o rasio yn fforestydd De Cymru. Mae'r fforestydd yn cynnig rhai o dir ralïau gorau'r byd ac mae hwn, yn ogystal â Phencadlys Rali Mawreddog yn Neuadd y Ddinas a'r ffaith ei fod yn aml yn penderfynu ar yr enillydd, yn gwneud Rali'r DU yn un o'r ralïau a'r proffil uchaf yng nghalendr Pencampwriaeth y Byd.

Mae'r rali eleni yn cychwyn dydd Iau 14 Tachwedd, a'r gyrwyr yn gwneud eu ffordd o ganol y ddinas i'r dociau ar gyfer rhan gyntaf y SuperSpecial. Bydd y SuperSpecials hefyd yn cael eu cynnal dydd Gwener 15 Tachwedd a dydd Sadwrn Tachwedd 16. Mae'r rali - ac o bosib ras y bencampwriaeth - yn gorffen dydd Sul 17 Tachwedd.

Mae tocyn grandstand ar gyfer pob un o'r cymalau arbennig yn £30 (£22.50 i blant rhwng 9 a 15, neu £15 i blant dan 8 oed) neu £15 am docyn cae (£7.50 i blant rhwng 9 a 15, am ddim i blant dan 8) ac maent ar gael - yn ogystal â thocynnau ar gyfer camau'r fforestydd drwy ffonio'r llinell docynnau ar 0870 1212529 neu www.networkq.co.uk.

## Cyrsiau Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Fyddwch chi'n cynnal digwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol? Fe allech fod â hawl i gael hyfforddiant am ddim os ydych. Mae Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn darparu cyrsiau amrywiol yn rhad ac am ddim i gyrff ac unigolion sy'n weithgar yn y maes - ymysg y cyrsiau sydd ar gael mae rhai mewn codi arian, marchnata, cynllunio busnes, materion polisi a chyfraith, rheolaeth a llawer mwy. Mae'r lle ar bob cwrs yn brin, felly mae angen archebu lle yn gynnar. Am wybodaeth am y cyrsiau cysylltwch â Celfyddydau Gwirfoddol Cymru ar (029) 2056 2656 neu info@voluntaryarts.info.

## Cynllun Iaith

Mae Prifysgol Cymru Aberystwyth wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg drafft sy'n egluro sut y mae'n bwriadu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn gwahodd sylwadau ar y cynllun a bydd unrhyw farn a fynegir yn cael ei hystyried cyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gymeradwyo'r Cynllun yn statudol. Gellir cael copi i'r cynllun drafft yn rhad ac am ddim trwy ffonio (01970) 622045 neu drwy ysgrifennu at canolfangymraeg@aber.ac.uk. Mae'r cynllun i'w weld hefyd ar wefan y Brifysgol www.aber.ac.uk/canolfangymraeg/gweinyddol/cynlluniaith.

## Ar Eich Beic!

Mae Sustrans - yr elusen trafnidiaeth cynaliadwy - yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o adeiladu'r Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol, sydd ar hyn o bryd yn ymestyn dros 6,500 milltir yn y DU. Yn ogystal mae Sustrans yn cefnogi cannoedd o fentrau Llwybrau Diogel i Ysgolion ynghyd â llu o brosiectau eraill sy'n amcanu i leddfu tagfeydd traffig gan wneud ein strydoedd yn ddiogelach ac yn fwy dymunol tra'n amddifyn ein hamgylchedd.

Fel nifer o elusennau eraill, fodd bynnag, mae Sustrans yn gorfod chwilio am gefnogwyr i'w cynorthwyo i barhau eu gwaith. Y cefnogwyr sy'n darparu'r cyllid craidd hanfodol sy'n eu galluogi i dderbyn arian gan y llywodraeth ac o ffynonellau eraill. Mae pawb sy'n ymrwymo i fod yn gefnogwr rheolaidd i Sustrans yn derbyn manylion am eu mentrau, map o lwybrau'r Rhydwaith Cenedlaethol yn yr ardal a gwybodaeth am sut i gymryd rhan yn y gweithgareddau lleol.Yn aml mae cyfle i gynorthwyo gyda'r gwaith o adeiladu llwybrau newydd a chyfrannu at y gymuned.

Os hoffech dderbyn pecyn gwybodaeth am weithgareddau Sustrans ac am sut i gyfrannu atynt ffoniwch (0117) 929 0888 neu ysgrifennwch at info@sustrans.org.uk neu ewch at y wefan www.sustrans.org.

## BT yn Gefnogol i'r Iaith

Mae BT wedi lansio opsiwn Cymraeg ar ei wefan boblogaidd bt.dotcom er mwyn galluodi cwsmeriaid i gyflawni nifer o drafodion yn eu mamiaith. Dyma un o'r safleoedd mwyaf poblogaidd yn y DU, gyda mwy na 27,000 cwsmer yn cofrestru i'w ddefnyddio bob wythnos a miliwn arall yn defnyddio'r gwasanaeth cyfeiriadur ar-lein. Yn awr, ar ôl cofrestru bydd cwsmeriaid yn gallu dewis rhai opsiynau Cymraeg ac mae'r hafan Gymraeg yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael, ynghyd â'r newyddion diweddaraf gan BT. Yn ystod y cyfnod peilot bydd tri gwasanaeth ar gael - cyfeiriadur rhifau ffôn Cymraeg, safle Ffrindiau a Theulu a thudalen "cysylltu â ni" ble bydd cwsmeriaid yn gallu gyrru e-bost at BT a chael ymateb yn Gymraeg. Yn ogystal bydd y tudalennau "cartref" a "busnes", sy'n disgrifio cynnyrch a gwasanaethau ar gyfer cartrefi a busnesau, hefyd yn Gymraeg.

## Theatr Y Crwys yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd perfformiad hynod o lwyddianus o'r ddrama gomedi - *Un Nos Ola*, gan gwmni Theatr Y Crwys, ar wahoddiad pwyllgor Drama yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Cast o bedwar oedd yn y ddrama, Janet Parry-Jones, Bob Roberts, Non Davies ac Andrew Bartholomew (isod). Y Cynhyrchydd oedd George P. Owen, Cynorthwydd Sain Robin Gruffydd, a'r Cofweinydd oedd Ifor Phillips.



## Y Border Bach

gan Hwn a Hon



Mae tymor y gwyliau yn dirwyn i ben ac mae'r border blodau yn gallu edrych yn eithaf digalon. Os ydych wedi bod i ffwrdd am gyfnod hir gallwch ddychwelyd i sgerbydau tyllog lle mae'r malwod wedi bod yn gwledda, potiau o flodau wedi sychu'n grimp neu blanhigion wedi eu chwalu gan y gwynt a'r glaw. Yn fyr, gardd sydd dros ei gorau!

Wedi clirio'r llanast fe fydd yna dipyn o wagle i'w lenwi os ydych am gael lliw yn yr ardd tan y rhew cyntaf. Mae gan y canolfannau garddio dahlias a chrysanthemums bach i roi dros dro yn eich potiau ond yn y borderi mae nhw ychydig yn drafferthus i'w cadw o flwyddyn i flwyddyn. Gwell a hawsach yw cael planhigion ddaw bob blwyddyn ac a fydd ar eu gorau yn Awst, Medi a Hydref.

Un o'r rhain yw'r Echinacea. Efallai eich bod yn gyfarwydd â'r enw - mae tabledi ohono ar werth yn y siopiau. Dywedir bod rhywbeth yn y dail a'r blodau sy'n cryfhau eich system imiwnedd a'ch cadw rhag heintiau, ond 'does gen i ddim prawf o hynny! Mae ganddo flodyn reit ryfedd a dweud y gwir. Mae'i ganol fel helmed gron bigog o liw pres wedi pylu a'r petalau'n cyfeirio'n ôl ohono yn gwneud iddo edrych fel 'shuttlecock' gêm badminton. Gall y petalau fod yn wyn neu'n binc yn ôl y math. Mae'n wir efallai nad yw'n flodyn fydd yn apelio at bawb. Er hynny, mae'n blanhigyn gwydn, di-ffwdan fydd yn cynyddu dros y blynyddoedd. Mae'n hoffi llecyn heulog ac yn tyfu tua 3-4 troedfedd o uchder. Mae'r dail yn wyrdd tywyll, hir ac yn arw, felly'n cal llonydd gan y malwod. Torrwch y blodau i ffwrdd wrth iddyn farw i annog eraill i agor. Ar ddiwedd y tymor torrwch y cyfan i'r llawr ac fe ddylai fod yn iawn dros y gaeaf. Yna'r flwyddyn nesaf fe fydd gennych rywbeth i edrych ymlaen i'w weld yn eich border bach, pan ddewch 'nôl o'ch gwyliau!

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Er nad oedd yr haf wedi bod yn heulog iawn, ac er nad ydw i wedi gweld yr un blodyn ar y pys pêr eleni, doedd hi ddim yn rhy ddrwg o gwbl - mwynheais i wythnos yn Llydaw gyda ffrindiau hen a newydd, ar gwrs Llydaweg. Roedd hi'n llawer o hwyl ceisio siarad yr iaith, roedd y bwyd yn hyfryd (gallwn i fyw ar grempogau a seidr, rwy'n siŵr), ac roedd y tywydd yn braf, hyd yn oed, am hanner yr wythnos. Bythefnos yn ddiweddarach roedd hi'n bleser cwrdd â ffrindiau Cymraeg hen ac ifainc ar hen faes awyr (gwyntog) yn Nhyddewi, yn ogystal â gweld Myrddin Ap (un o'm ffefrynnau ers flynyddoedd) yn profi ei fod yn gystal Fardd yr Oedolion â Bardd y Plant*.

Ond er 'mod i'n dwlu ar yr haf, ac yn mwynhau'n fawr iawn y fraint o beidio â theimlo'n oer am gyfnod, erbyn hyn rwy'n dechrau edrych ymlaen at her y flwyddyn newydd. I mi, nid Ionawr yw'r mis cyntaf, ond Medi. Mae'r gwyliau drosodd, ac mae modd wynebu'r byd unwaith eto gydag egni a brwdfrydedd. Ers imi ddechrau'r ysgol, ychydig cyn fy mhumed penblwydd, lwyddais i erioed dianc y drefn academaidd- pan gorffenais yn y brifysgol es i i weithio mewn prifysgol arall, ac ar ôl gadael hon ddechreuais i gwrs gradd yn Aberystwyth, ac nawr rwy'n gweithio yn UWIC hefyd! Ydych chi wedi cofrestru mewn dosbarth Cymraeg eto? Dewch ymlaen - mae 2002/03 yn brysur ddechrau! Blwyddyn Newydd Dda!

* Myrddin ap Dafydd, enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, oedd yr un cyntaf i fod yn Fardd y Plant, yn 2000/01.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| pys pêr - *sweet peas* | her - challenge |
| Llydaw - *Brittany* | mae modd - *it's possible* |
| Llydaweg - *Breton* | wynebu - *to face* |
| crempogau - *pancakes* | egni - *energy* |
| bythefnos yn ddiweddarach - *a fortnight later* | brwdfrydedd - *enthusiasm* |
| braint - *privilege* | llwyddo - *to succeed* |
| | trefn - *system* |

## YDYCH CHI WEDI COFRESTRU I BLEIDLEISIO?

Dim ond 60% o etholwyr a bleidleisiodd yn yr Etholaeth Gyffredinol ddiwethaf a phleidleisiodd hyd yn oed llai yn etholaethau'r cyngor. Yr etholaeth yw'r unig gyfle lle gallwch ddylanwadu o ddifrif ar y ffordd y mae Caerdydd yn cael ei rhedeg ac i wneud hynny mae'n rhaid i chi gael eich cynnwys ar y Gofrestr Etholwyr.

Mae ffurflen Gofrestru Etholwyr wedi cael ei dosbarthu i chi â llaw yn yr wythnosau diwethaf ac os nad ydych wedi gwneud yn barod, llenwch y ffurflen a'i dychwelyd yn rhad ac am ddim i Neuadd y Sir. Bydd unrhyw breswylfeydd sy'n methu â dychwelyd y ffurflen ddim yn cael eu cofrestru - mai mor syml â hynny.

Dim ond preswylwyr cymwys sy'n cael eu cynnwys ar y gofrestr. Golyga 'cymwys' bobl sy'n ddinasyddion o Brydain, y Gymanwlad neu Iwerddon, neu ddinasyddion o wlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw mewn cyfeiriad yng Nghaerdydd ar 15 Hydref ac sydd yn 16 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwn.

Dylai rheiny sydd heb gyfeiriad parhaol gysylltu â'r Gwasanaethau Etholiadol yn Neuadd y Sir i sicrhau eu bod wedi cael eu cofrestru. Mae myfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preswyl yn cael eu cofrestru'n awtomatig, ond mae disgwyl i'r rheiny sy'n byw mewn llety preifat lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer eu cyfeiriad tymor a/neu gartref, er mae'n drosedd i bleidleisio mwy nag unwaith mewn etholaeth.

Am fwy o wybodaeth, neu os nad ydych wedi derbyn eich Ffurflen Gofrestru Etholwyr, cysylltwch ag unai Cysylltu â Chaerdydd ar 2087 2088, llinell gymorth y Gofrestr Etholwyr ar 2087 2033 neu ymwelwch â www.cardiff.gov.uk/vote ble gellir llwytho i lawr yr holl ffurflenni.

*Menter Iaith Caerdydd*

# PENWYTHNOS TEULU I LLANGRANNOG

## Ebrill 11-13, 2003

***Croeso i deuluoedd (rhieni Cymraeg a di-Gymraeg)***

Cyfle i:

***Sgîo, Nofio, Merlota, Gwibgartio, "Motorbeics", Cwrs Rhaffau, Cwrs Antur, Helfa Drysor, Trip i'r Traeth a llawer mwy...***

Ystafelloedd En-Suite ■ Cyfleusterau ar gyfer babi's (Cot, Sedd Uchel, Meithrinfa ac ati)

*Cyrraedd 4.30pm ymlaen Nos Wener. Gadael ar ôl cinio Dydd Sul (tua 2.00pm)*

PRISIAU
£75.00 – Oedolion
£57.00 – Plant (8 oed +)
£39.00 – Plant (4-7 oed)
£31.00 – Plant (2-3 oed)
Plant dan 3 am ddim

Pris yn cynnwys ystafell en-suite, brecwast, cinio, te a swper, defnydd o'r holl gweithgareddau, meithrinfa, ymweliad Martyn Geraint, bws shuttle (i'r rhieni) lawr i dafarn y Ship!!

Hefyd:

***Meithrinfa 3 mis - 5 oed :: Ymweliad Martyn Geraint :: Cwis Teulu***

Os oes diddordeb neu eisiau rhagor o wybodaeth, danfonwch y slip isod at Sian Lewis, Swyddog Datblygu, Menter Caerdydd, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd CF24 3AJ cyn gynted a phosib.
■ Fe fydd angen blaendal o £50 y teulu erbyn 30fed Hydref, 2002.

---


Enw'r Teulu: ........................................ Rhif ffôn: ........................................

Cyfeiriad: ........................................



www.s4c.co.uk

S4C



Fedar o ddim byw efo hi,
fedar o ddim byw hebddi

**BOB A'I FAM** **8.30PM**
**DYDD IAU**
**YN DECHRAU 19 MEDI**

**DRAMA NEWYDD**

## DOLEN CYMRU

Mae'r ddolen arbennig hon rhwng Cymru a Lesotho yn wynebu cyfnod cyffrous a llawn her. Bellach, mae swyddfa'r Ddolen wedi ei leoli yn y Bae a mae angen nawr

***Ysgrifennydd/Cynorthwy-ydd Gweinyddol***

*(Rhan amser)*

ar Dyfan Jones, Cyfarwyddwr Datblygu Dolen Cymru

*Am fanylion pellach, cysyllter â'r Cyfarwyddwr ar 07980 881231*

Angen

## TIWTOR PERSONOL

i ddysgu T.G.A.U. Iaith Gymraeg i blentyn ysgol.

Ffoniwch **029 2089 0574**

*(gyda'r nos)*

*Ydy* ***Alcohol*** *yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

CWMNI THEATR GWYNEDD

yn cyflwyno

# BLODEUWEDD

gan Saunders Lewis

Nos Wener, 18 Hydref
7.30 y.h.

THEATR A NEUADDAU
COFFA Y BARRI

Tocynnau: 01446 738622 neu
o Chapter 02920 304400

Trwy E-bost:
bookings@barrymemo.fsnet.co.uk




Dosbarthwr telynau Camac
Distributor of Camac harps

***Mae telynau ac offer telyn Camac ar gael drwy gwmni Telynau Vining, Caerdydd... defnyddiau, crefftwaith a sain o safon uchel am bris cystadleuol.***

**Telynau pedal**
**Telynau Celtaidd**
**Telynau trydan**
**Telynau i'w rhentu**
**Cerddoriaeth, tannau ac offer telyn**

**Cysylltwch â Elen Vining**

**Telynau Vining Cyf.**

21 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ
Ffôn/Ffacs: (02920) 529084
E-bost: telynauviningharps@cwcom.net